ATODLEN 2 — Erthygl 4

ARBEDION CYFFREDINOL

**Dehongli**

**1.** Yn yr Atodlen hon ac yn Atodlen 3—

mae i "Tribiwnlys Haen Gyntaf" ("*First-tier Tribunal*") yr ystyr a roddir i "First-tier Tribunal" yn Neddf Tribiwnlysoedd, Llysoedd a Gorfodi 2007(**1**).

**Arbedion cyffredinol ar gyfer pethau a wnaed cyn y dyddiad perthnasol**

**2.**—(1) Onid oes bwriad i'r gwrthwyneb yn ymddangos yn Atodlen 3, ni fydd dyfodiad i rym y darpariaethau yn Atodlen 1 yn effeithio ar —

(a) unrhyw weithred a wneir, unrhyw hysbysiad a gyflwynir, unrhyw gais a wneir nac unrhyw benderfyniad a wneir; neu

(b) unrhyw ofyniad neu gyfyngiad amser; neu

(c) unrhyw achos cyfreithiol a gychwynnwyd; neu

(ch) unrhyw orchymyn a wnaed gan lys, gan ynad heddwch neu gan y Tribiwnlys Haen Gyntaf

o dan, neu mewn perthynas ag unrhyw rai o'r darpariaethau a ddiwygiwyd neu a ddiddymwyd o ganlyniad i gychwyn Atodlenni 1 a 2 o'r Mesur.

(2) Mewn perthynas â'r darpariaethau a ddiwygiwyd neu a ddiddymwyd o ganlyniad i gychwyn Atodlenni 1 a 2 o'r Mesur, ceir dwyn neu barhau achosion cyfreithiol, a cheir gosod a gorfodi rhwymedïau neu gosbau mewn perthynas â gweithredoedd a wnaed o dan, mewn perthynas â, neu'n groes i unrhyw rai o'r darpariaethau hynny cyn y dyddiad perthnasol, fel pe na bai'r diwygiadau neu'r ddiddymiadau wedi eu gwneud.

(**1**) 2007 p.15.